TYSTYSGRIF SGILIAU IAITH (TSI)

2021 – 2022





Croeso i'r sesiwn gyntaf!

Eich tiwtor iaith:

Bethan Griffiths

bethan.griffiths@pcydds.ac.uk

Rhif ffôn: 01267 225189





BETH YW'R DYSTYSGRIF?

Mae myfyrwyr sydd â sgiliau dwyieithog yn fwy tebygol o gael swydd dda wrth raddio. Bydd ennill y Dystysgrif yn gymorth i chi wrth ymgeisio am swyddi yn y dyfodol.

Os ydych yn astudio mewn prifysgol yng Nghymru, mae'r Dystysgrif yn cynnig ffordd o ennill cymhwyster i gydnabod eich sgiliau yn y Gymraeg. Mae'n dystiolaeth o'ch gallu i gyfathrebu'n gywir, yn hyderus ac yn broffesiynol drwy gyfrwng y Gymraeg, ar lafar ac yn ysgrifenedig. Mae'r asesiadau wedi eu cynllunio'n arbennig er mwyn rhoi prawf ar y sgiliau iaith fydd eu hangen arnoch wrth ddefnyddio'r Gymraeg mewn amgylchiadau proffesiynol. Achredir y Dystysgrif gan CBAC.


Mwy a mwy o gyflogwyr yn chwilio am weithwyr sydd â sgiliau dwyieithog


Cyfle gwych i ennill cymhwyster ychwanegol i'r CV




Tystiolaeth o lefel sgiliau Cymraeg llafar ac ysgrifenedig

GRADDAU

GRADDAU'R DYSTYSGRIF

Mae dwy ran i’r Dystysgrif, sef y Cyflwyniad Llafar a’r Arholiad Ysgrifenedig.

Mae pedwar canlyniad posibl ar gyfer y Dystysgrif:

- Rhagoriaeth
- Clod
- Llwyddo
- Methu.

Fel arfer, y trothwy llwyddo fydd 50% i bob cydran, sef y cyflwyniad llafar a'r arholiad ysgrifenedig. Gall yr union drothwyon ar gyfer y gwahanol raddau newid wrth i'r asesiadau gael eu dyfarnu.

Bydd pob ymgeisydd yn derbyn marc allan o 100 ar gyfer y ddwy gydran. Rhaid llwyddo yn y ddwy gydran i dderbyn tystysgrif.

YR ASESU



Y Cyflwyniad Llafar

50%

(Dyddiad i'w gadarnhau - o ddechrau Chwefror ymlaen.)

Asesiad Ysgrifenedig

50%

4ydd o Fai 2022


Beth yw'r asesiad llafar?



Cyflwyniad 7-8 munud

ar destun yn ymwneud ag unrhyw agwedd o'ch maes academaidd / swydd. Dylai'r cyflwyniad fod yn addas ar gyfer cynulleidfa nad ydynt yn arbenigwyr yn y pwnc.

Bydd angen cyflwyniad Pŵerbwynt (tua 8 sleid)



7-8 munud o gwestiynau

gan Arholwr CBAC a'r Tiwtor Sgiliau Iaith
(yn ymwneud ag unrhyw bwyntiau diddorol a gododdd yn y cyflwyniad.

Bydd yr asesiad ar-lein yn defnyddio TEAMS

Cyflwyniad Llafar : Meini Prawf (100 marc)

- **eich ffordd o gyflwyno** (20 marc)
- **eich geirfa/cystrawennau** (20 marc)
- **cynnwys a threfn eich cyflwyniad** (20 marc)
- **eich ymateb i gwestiynau** (20 marc)
- **cywirdeb** (10 marc)
- **deunydd gweledol** (10 marc)



Yr arholiad ysgrifenedig

Mae'r arholiad yn cynnwys 3 tasg, sef:

1) Cywiro (20% o'r marciau)
2) Trawsieithu (40%)
3) Ysgrifennu Rhydd (40%)

Dyddiad: 4ydd o Fai 2022 (Amser i'w gadarnhau)

Bydd yr arholiad ar y campws (Caerfyrddin neu Abertawe)








Y trefniadau



- Bydd pawb cael cael eu hychwanegu i ‘dîm’ TSI ar Teams.
- *(Bydd rhaid i ni ddefnyddio eich cyfeiriad e-bost Prifysgol)*

- Bydd cyfle fan hyn i rannu gwybodaeth, cyhoeddiadau a chadw cyswllt cyson gyda chi.

- Croeso i chi hefyd ddefnyddio’r tîm i ofyn cwestiynau, ymholiadau ayyb.

Y Sesiynau



- Bydd cyfanwm o 8 sesiwn ar gael yn canolbwyntio ar elfennau gwahanol o'r dystysgrif.

- Bydd y cyflwyniadau yn cael eu rhyddhau bob yn ail wythnos gyda throslais wedi recordio yn eich arwain chi drwy'r cyflwyniad. Bydd y sesiwn nesaf (Paratoi tuag at y Cyflwyniad Llafar) yn cael ei rhyddhau ar wythnos y 10fed o Ionawr.

- Bydd y sesiynau hyn ac adnoddau perthnasol ar Moodle.

(Unwaith byddwch chi wedi cael eich ychwanegu bydd teilsen Y Dystysgrif Sgiliau Iaith yn ymddangos yn syth wrth i chi fewngofnodi)

Cefnogaeth Ychwanegol
(Sesiynau byw ar Teams)



-Bob yn ail wythnos bydd sesiynau byw (seminarau iaith) yn cael eu trefnu i chi gael trafod testunau'r sesiynau anghydamserol gyda'r tiwtor.

- Bydd croeso i chi gysylltu gyda'r tiwtor ac anfon ymholiadau ar e-bost neu ar Teams os nad oes modd i chi ymuno â'r sesiwn fyw.

Yn y cyfamser…

- Dechrau ystyried pwnc ar gyfer eich cyflwyniad llafar

- Manteisio ar y cyfoeth o adnoddau ymarferol sydd ar gael ar wefan y Coleg Cymraeg > Tystysgrif Sgiliau Iaith

http://www.colegcymraeg.ac.uk/cy/astudio/sgiliauiaith/tystysgrifsgiliau/



Diolch yn fawr
Unrhyw gwestiynau?

